

# Llais Y Derwent

Haf - Hydref 2008

Papur Bro i Ddysgwyr Cymraeg Canolbarth Lloegr

Rhif 9 Pris 25c

## Sylweba'r Golygydd

Rhaid i mi ymddiheuro am golli rhifyn Llais y Derwent Hydref 2007, roeddwn yn gweithio yn Abertawe i Fenter Iaith Abertawe a death neb ymlaen i'w llenwi'r bwlich. Ces i amser braf pan oeddwn i yn Abertawe, mae hi'n ddinas fodern, gyffrous. Mae'r bobl yn gyfeillgar ac yn groesawgar ac mae'r dysgwyr Cymraeg, tiwtoriaid a gwirfoddolwyr yn frwd dros yr iaith. Mae'r cefn gwlad o gwmpas Penrhyn Gŵyr yn drawiadol, yn arbenig y llwybrau arfordirol hardd.

Roedd hi'n brofiad diddorol dros ben cael gweithio trwy'r cyfrwng y Gymraeg mewn swyddfa ble mae popeth yn cael ei wneud trwy'r iaith.

Mae hi'n beth braf hefyd bod y pethau'n mynd ymlaen yma yn Swydd Derby sef Cylch Dysgwyr Cymraeg Derby, y dosbarth Cymraeg Gymdeithas Addysg y Gweithwyr (W.E.A.) a hefyd y Gymdeithas Gymreig Derby. Mae'r grwpiau yn Bradford a Nottingham dal i fynd hefyd, sef Clwb Clebran Bradford a Bore Coffi misol Cymraeg yn Nottingham. Hoffwn ddatblygu rhwydwaith ymhlith bobl yn Lloegr sy'n dysgu'r hen iaith, felly os oes gyda chi gysylltiadau neu wybodaeth berthnasol wnewch chi rhwng wybodaeth i Llais Y Derwent.

Golygydd



## Blogiau Cymraeg yn Lloegr!

Ers y gwanwyn mae'n a flog Cymraeg ei iaith wedi cael ei greu yma yn Swydd Derby. Mae'r gair 'blog' yn tarddu o'r Saesneg 'Web Log' sef rhyw fath o ddyddiadur sy'n cael ei diweddarau'n rheolaidd gan yr awdur. Diben y blog yw rhoi'r cyfle i Gymdeithasau Cymreig a Chymraeg yr ardal cyhoeddi dipyn o'r gwaith maen nhw 'n gwneud yn yr ardal. Mi fydd lluniau ffoto, clipiau fideo a hanesion am weithgareddau ac unigolion yn ymddangos ar y safle.

Enw'r blog yw Cymry'r Canolbarth, a'i gyfeiriad yw <http://cymryycanolbarth.blogspot.com/> os oes lluniau ffoto, clipiau fideo byr (tua 5 muned) neu newyddion addas i'r blog mi ddylai anfon neges e-bost i [jonathan\\_simcock@yahoo.com](mailto:jonathan_simcock@yahoo.com).

Mae'n sawl peth arall sy'n gysylltiedig efo ardal Nottingham a Derby sy ar y we erbyn hyn, sef wefannau'r Gymdeithas Derby a Nottingham, a safle we Cylch Dysgwyr Cymraeg Derby.

Gwelir rhestr islaw.

Cymdeithas Cymry Nottingham

<http://www.hotline.org/cymdeithas/nottingham/>

Cymdeithas Cymreig Derby

<http://www.holtonline.org.uk/cymdeithas/derby/>

Cylch Dysgwyr Cymraeg Derby

<http://www.derbywelshlearnerscircle.fusiveweb.co.uk/>

Mae'n restr eang o Gymdeithasau Cymreig ar Safle we Cylch Dysgwyr Cymraeg Derby. Mwynhewch!

## Cyrsiau Cymraeg Gymdeithas Addysg Y Gweithwyr

### Cwrs Cymraeg (Sylfaen)

Cwrs deg wythnos. Pris llawn £41.25 Gostyngiadau grŵp A £37.10, Gostyngiadau grŵp B Rhad ac am ddim.

Mae'r cwrs yn dechrau am 7.30 y.h. ar Nos Fawrth 23 o Fedi. St.John's Chapel, Belper. Mi fydd y dosbarth yn addas ar gyfer pobl sy wedi bod ar Ysgolion Haf, neu sy wedi bod yn dysgu ar eu pennau eu hunan trwy ddefnyddio llyfrau, tapiau a cryno disgiau.

### Cymraeg i Ddechreuwr

Cwrs sy'n addas ar gyfer dechreuwr pur. Mi fydd y dosbarth yn defnyddio'r llyfr Cwrs Mynediad. Mi fydd y cwrs yn rhedeg am ddeng wythnos gan ddechrau ar Nos Iau 25 o Fedi. Lleoliad St.John's Chapel, Belper.

Amser: 7.30 y.h. - 9.00y.h.

Cwrs deg wythnos. Pris llawn £41.25 Gostyngiadau grŵp A £37.10, Gostyngiadau grŵp B Rhad ac am ddim.

Os ydych chi eisiau manylion pellach am y cyrsiau neu gofrestru ar gyfer cwrs mi ddylech chi ffonio'r tiwtor ar 01773 821262.

## Ysgol Undydd Cymraeg Derby 2008

Dydd Sadwrn, Medi 27

10.00 y bore tan 4.00 y prynhawn

Dechreuwr, Canolradd a Phrofiadol

Pris £15.00 (Gostyngiadau £12.00)

Gan gynnwys Cinio, diodydd, CD a phe-cyn i ddysgwyr.

Cysylltwch â 01332 332649 neu  
[dysgwyr5@aol.com](mailto:dysgwyr5@aol.com)

# DROS y CLAWDD COFIO

A minnau dros fy mhedwar ugain, peth reit naturiol yw edrych yn ôl a chofio; cymeriadau, digwyddiadau ac ati o'r gorffennol pell. Dywedir mai gwendid mwya'r Cymry yw edrych yn ôl, yn lle ymlaen i'r dyfodol gyda hyder.

Mae fy ngwreiddiau yn Hendy-gwyn ar Dâf yn Sir Gâr ac o edrych yn ôl, dw i am sôn am un cymeriad difyr yn fy nheulu, sef modryb Sophie, chwaer i fam-gu Pandy, mam fy nhad. Roedd hi'n byw yng Nghwm Pandy rhyw dwy filltir neu fwy o Feidrim, drws nesa i fam-gu a thad-cu. Garregwen oedd enw un tŷ, a Garreglwyd y llall.

Menyw di briod oedd Sophie, ac i mi yn blentyn, 'roedd hyn yn rhywbeth od, dim plant nag oedolion yn byw gyda hi, ac felly 'roeddwn braidd yn ofnus yn ei chwmmi. Ond 'roedd ganddi wên serchog, weithiau'n ddireidus, a thafod siarpl! Cofiaf hefyd pan oeddwn yn grwt, am Sophie, bob amser yn gwisgo ffedog, o hyd yn gwau' sanau, ac yn y tŷ, megyn wrth law i atgyfodi'r tân. Rhyfedd fel mae pethau bach fel 'na yn gwneud argraff ar un mor ifanc.

Pan euthum yn ŵr ac wedi rhoi'r gorau i bethau bachgennaidd roeddwn yn hoff iawn o Auntie Sophie, a phan oeddwn adre ar leave adeg y rhyfel, rhaid oedd mynd fyny i Gwm Pandy ar y beic i weld Sophie. Hyd yn oed ganol gaeaf, dim ond i mi anfon llythyr a rhoi gwybod iddi ymlaen llaw, roedd tarten mwya'r a fale i'm croesawu. Chwarae teg iddi.

Tachwedd 1944 cefais ddamwain difrifol pan adre o'r RAF dros y penwythnos a chwarae rygbi i Hendy-gwyn a'r Taf - torrais asgwrn fy ngwddf pan gwym-podd y sgrym.

Wedi sbel mewn ysbytai yn Rhydychen, Shaftesbury a Durham, gwella. Yn ystod yr haf anlynol cefais sick leave. Dyna'r adeg pan oedd Sophie yn wael iawn. Perthnasau o Feidrim oedd yn gofalu am Sophie, pob un yn ei thyrn. A minnau ar sick leave roedd gen i ddi-gon o amser i fod gyda hi.

Cofiaf am Dr Davies o Sanclêr yn galw heibio ac yn mynd i'r ystafell wely. Ar y mur uwch y gwely oedd sampler o waith Sophie.... A B C... nymbars..ei henw.. a dyddiad ei geni. OND.. roedd y dyddiad wedi ei gud-dio! Doedd neb i wybod beth oedd oedran Sophie.

Ac mae Dr Davies yn gofyn iddi "Beth yw eich oedran chi nawr Miss Jones?"

A Sophie yn ateb "Beth sta hwnna i neud a chi. Chi'n briod a phlant 'da chi."

Un Sul daeth fy chwaer Olwydd fyny ar ei beic o Hendy-gwyn, ac wedi iddi gyrraedd roedd chwant cwstard ar Sophie. Rhyw awr yn gynt, roedd chwant chips arni, ond newidiodd ei meddwl.

Yn gynnar bore dydd Llun, gofynnais beth oedd hi eisiau i frecwast. Roedd chwant chips arni "I chi'n siŵr bo chi ishe chips? Nes i chips ddoe a newido chi 'ch meddwl. Naf fi chips i chi.. Mae cwstard ma hefyd. Nath Olwydd e chi ddoe."

Roedd Sophie yn gwella. "Cymera i'r ddoi." Ac felly y bu.

Ymhen rhyw awr, dyma'r postman yn galw heibio, ac yn gofyn "Shwmae Sophie y bore ma. Mae pawb yn holi am dani?" "Iawn" atebais. "I frecwast bore ma, cas hi cwstard a chips". Wel, nos Lun, roedd rhai yn galw heibio ar eu ffordd adre o'r Cwrdd Gweddi yng Nghapel Ffynonbedr lle'r oedd Sophie yn aelod. Pawb yn hapus fod Sophie yn gwella ac wedi gwledda ar "cwstard a chips" i frecwast. Yn amlwg fod y postman wedi pasio 'mlaen y newyddion braf a ddaeth i'r fro. Am wn i, Auntie Sophie yw'r unig un yn yr holl fyd a gafodd cwstard a chips i frecwast!

GWILI LEWIS

## Plas Tan Y Bwlch

Da dwi'n byw yn Swydd Lincoln, yn bell o unrhyw ddosbarth neu gangen CYD, dyddiad pwysig yn fy nyddiadur i yw fy ymweliad blynyddol i Gymru dros gael ymarfer yn yr iaith lafar.

Ers rhai blynyddoedd, dw i wedi bod yn mynd at Blas Tan y Bwlch, Maentwrog, sef Canolfan Astudiaethau Parc Cenedlaethol Eryri. [www.plastanybwlch.com](http://www.plastanybwlch.com) Mae'r Plas yn cynnig cwrs penwythnos hir o'r enw "Crwydro Mynyddoedd Eryri", sy'n cael ei gynnal dros Ŵyl y Banc Ebrill. Mae hyn yn fantais fawr i fi, gan brin iawn bellach yw cyrsiau Cymraeg penwythnos preswyl. Dim cwrs Cymraeg yw ef, a dweud y gwir, ond cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg. Grŵp bychan (11 aelod fel arfer) cymysg o ddysgwyr a Chymry Cymraeg yw ef, o dan arweiniad aelod o'r staff. Cwrs cerdded, dim cwrs iaith ydy.

Bob dydd, ar ôl brechwast, dyn ni'n cael ein cludo mewn minibus at ryw lecyn arbennig yn y Parc, yna, cychwyn ar lwybr cyhoeddus sy'n arwain bob amser i ddyffryn, neu lyn, neu olygfa odidog. Mae 'na theithiau ar ddydd Sadwrn, Sul a Llun. Bydd rhaid i chi allu cerdded tua saith milltir bob dydd, i fyny ac i lawr, ar hyd llwybrau anwastad, ond does dim mynydda o gwbl, neu berygl chwaith. Trwy'r amser dych chi'n gallu ymddiddan yn Gymraeg. Mae'r naws yn gyfeillgar a chefnogol, ac, wrth i fi fynd yno dros y blynyddoedd, dw i wedi dod i nabod rhai o'r cerddwyr yn eithaf da. Mae 'na hoe fach bob hyn a hyn, a phe-cyn bwyd i chi amser cinio.


Mae'r minibus yn aros atoch chi ar ddiwedd y daith, i'ch gludo chi'n ôl i'r Plas, lle mae swper blasus, he-laeth ar gael. Yn yr hwyr, mae'r trefnydd yn dangos sleidiau - cyfle i chi wrando heb siarad, neu just pendwmpian.

Rhaid cyfaddef nad yw awyrgylch y Plas ei hun yn hollol Cymraeg (gan mae cyrsiau Saesneg eu hiaith yn cael eu cynnal ar yr un pryd) ond mae Staff y Plas i gyd yn barod i siarad Cymraeg efo chi, wrth gwrs. Mae'r cwrs yn costio tua £240 am ystafell sengl gyda en-suite am dridiau. Mae'r Plas yn adeilad ardderchog yn edrych i lawr ar erddi ysblennydd. Mae'r pris yn cynnwys lluniaeth llawn o safon uchel a chyfle heb ei ail i ymarfer yr iaith mewn lleoliad o'r prydfertha' we-lais i erioed.

Gyda llaw, bydd angen sgidiau cerdded da ac ano-rak arnoch chi - a throwsus glaw, wrth reswm.

Martyn Wyatt

# Cyfeiriadau (Directions)



Sut ga i fynd i.....?

How may I go to?

Ble mae'r.....?

Where is the...?

Ewch syth ymlaen (Go straight ahead)

Ewch i'r dde / chwith (Go to the right/left)

Dros y bont (Over the bridge)

Hyd at (As far as / Up to)

Wrth ochr y / yr.... (By the side of)

Gyferbyn a'r..... (Opposite the)

Ger..... (Near)

Rhwng..... (Between)

Hanner ffordd rhwng.. X a X

## Ymarfer eich Cymraeg dros y We am ddim!

Mae'nna feddalwedd (software) arbennig o dda sy'n galluogi dysgwyr i ymarfer eu Cymraeg efo dysgwyr eraill neu efo Cymry Cymraeg (Welsh Speakers) am ddim dros y We. Enw'r meddalwedd yw Skype. Bydd angen cyfrifiadur, band llydan, microffon ac uchelseinydd arnoch. Ond unwaith mae popeth wedi cael ei osod mewn lle mi fydd hi'n bosib siarad am oriau am ddim.

Gwelir

<http://www.skype.com/intl/engb/download/skype/windows/> Wedyn, os ydych chi eisiau ymarfer eich Cymraeg efo aelodau o Gymdeithas Nottingham a Chylch Dysgwyr Cymraeg Derby mi ddylech chi anfon eich enw Skype at [dysgwyr5@aol.com](mailto:dysgwyr5@aol.com).

## Crwydro Caer

Mi aethon ni, y wraig a fi, draw i Tarporley yn diweddar i weld fy rhieni, ac i helpu nhw gyda phrosiect ar eu cyfrifiadur nhw, diolch byth roedd hi'n jobyn byr, felly cawson ni'r cyfle i dreulio'r prynhawn yng Nghaer.

Mi ges i fy magu yn Swydd Caer mewn pentref o'r enw Tarvin. Mae'r gair yn dod o'r Gymraeg mae'n debyg sef y gair '*terfyn*', mae Tarvin yn sefyll dim yn bell o afon o'r enw 'Gowy' sy'n debyg iawn i enw'r afon Gwy yng Nghymru. Mae'nna sawl enw arall yn Swydd Caer fel y pentref o'r enw *Bryn* ger Northwich.

Fan hyn yn Swydd Derby mae'nna ddigon o enwau sy'n tarddu o'r Gymraeg. Afonydd fel y Derwent, y Dove, y Wye. Hefyd pentrefi fel Crich a Pentrich, mae'nna fryn lleol o'r enw 'the Chevin' ond eto i gyd mae'r enw yn dod o'r gair Cymraeg sef y gair Cefn.

Mae'nna sawl llyfr perthnasol sy'n adrodd yr hanes yma. Geiriadur Enwau Lleoedd Prifysgol Rhydychen yw un, llyfr da arall yw 'English Places Celtic Voices' sy'n rhestr 2000 o enwau lle o dras Cymraeg y tu allan i Gymru o fewn y DU. Efallai mai nifer fawr o'r Saeson mewn gwirionedd yw Cymry sy wedi colli'r iaith 1300 o flwyddnod yn ôl.

Beth bynnag erbyn dau o'r gloch prynhawn dydd Sadwrn roedd Marilyn a finau yn crwydro strydoedd Caer. Son am bryn hawn braf, roedd yr haul wedi tynnu cannoedd o bobl allan. Rhaid i mi ddweud bod cymeriad Caer wedi newid yn fawr ers i mi fynd yno fel bachgen Ysgol yn y saithdegau. Pryd hynny does dim parth di-draffig yng nghanol y dre, ac roedd y bysiau a cherbydau yn mynd ar hyd strydoedd le nwan dim ond torfeydd o bobl yn hel y bargain diweddaraf.

Pan o'n i'n ifanc doeddwn i ddim yn ymwybodol o'r Gymraeg, bellach ambell waith dw i'n clywed Cymry yn y ddinas. Dydd Sadwrn roedd 'na chryn dipyn o ymwelwyr ac roedd dau ddyn yn gwisgo arfwisg Rufeinig, fel dau o filwyr Macsen Wledig sy wedi cael eu gadael ar ôl!

Mi aethon ni i mewn i'r eglwys gadeiriol, i'r Caffi am baned, ac wedyn am dro ar hyd muriau'r dre i siop llyfr le mae'nna adran llyfrau Cymraeg a Chymreig ail law. Mi brynais i gopi o hen lyfr sy'n son am hanes bro Maelor. Yn ddiweddar dw i wedi cael anrheg o hen lawlyfr am ddysgu Cymraeg oddi wrth ffrind sy'n gwneud gwaith printiedig efo hen beiriant argraffu llythyr plwm. Pryd, tybed, cafodd y llyfr ei argraffu?

Wedyn mi aethon draw i dafarn i weld llun arbennig mewn tafarn sy'n dangos Brenin Edgar yn derbyn gwrogaeth oddi wrth wyth o dywysogion Cymreig. Mae'r perthynas rhwng y Cymry a thrigolion dinas Caer yn well y dyddiau yma, does neb bellach yn bygwth saethu'r Cymry efo bwa a saeth os ydyn nhw'n cael eu dal o fewn muriau'r dre ar ôl machlud y haul!

Jonathan Simcock

## Cymru ar y We

Llyfrgell Genedlaethol Cymru: Drych Digidol: [www.llgc.org.uk](http://www.llgc.org.uk)

Canolfan Y Celfyddydau Aberystwyth

[www.aber.ac.uk/artscentre](http://www.aber.ac.uk/artscentre)

Golwg: clychgrawn wythnosol

[www.golwg.com](http://www.golwg.com)

Prifysgol Cymru Coleg Bangor

<http://www.bangor.ac.uk>

Eisteddfod Genedlaethol Cymru

[www.eisteddfod.org.uk](http://www.eisteddfod.org.uk)

S4C Language Centre

<http://www.learnonS4.co.uk/home.php>

Bwrdd yr Iaith Gymraeg

[www.bwrdd-yr-iaith.org.uk](http://www.bwrdd-yr-iaith.org.uk)

Clwb Malu Cachu

<http://www.clwbmalucachu.co.uk/index.htm>

Canolfan Cymry Llundain

<http://www.londonwelsh.org>

Cymdeithas Cymreig Birmingham

<http://www.birminghamwelsh.org.uk/>

Cymrodorion Maesbedr

<http://www.users.global.net.co.uk/~scrol/pws/mapysafle.html>

Northwich Welsh Society

<http://freespace.virgin.net/usedto.be/index.html>

Clwb Clebran Bradford

<http://www.communigate.co.uk/brad/welshclwbclebran/>

Nant Gwrtheyrn Language Centre

<http://nantgwrtheyrn.org/DesktopDefault.aspx>

## Cymru ar y ffôn

**Popeth Cymraeg**, Denbigh, North Wales

For free Welsh Language Courses 01745 812287

**Sheffield & District Cambrian Society**

Hon Sec. Dr G Daniels 0114 236 6301

**Derby Welsh Society**

Gen. Sec. David Edwards 01332 672387

**Cymdeithas Cymry Nottingham**

Gwynne Davies 0115 925 9613

**Northwich Welsh Society**

Gwili Lewis 01606 784438

**Bradford and District St.David's Society**

Secretary Mrs E Walker 01535 665829

**Cymdeithas Gymreig Huddersfield**

Sec Mrs Barbara Watkins 01706 817786

## Cysylltu a'r Cylch Dysgwyr Cymraeg Derby

Trwy ffônio 07709 238680 neu gysylltu ar lein ar [www.derbywelshlearnerscircle.fusiveweb.co.uk](http://www.derbywelshlearnerscircle.fusiveweb.co.uk). Mi fydd 'na groeso cynnes i bawb!

**Cysylltu a Llais Y Derwent trwy ffonio 07709 238680 neu anfon ebost i [dysgwyr5@aol.com](mailto:dysgwyr5@aol.com)**